Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Paul Matthews
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fynwy
Blwch Post 106
Cil-y-coed
Sir Fynwy
NP26 9AN

Ionawr 2016

Annwyl Mr Matthews

**Ymweliad monitro gan Estyn, 23 – 27 Tachwedd 2015**

Yn Nhachwedd 2012, arolygodd Estyn wasanaethau addysg Cyngor Sir Fynwy ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn dilyn yr arolygiad, barnwyd bod angen mesurau arbennig ar yr awdurdod. Cytunwyd ar gynllun monitro gyda'ch arolygwyr cyswllt o Estyn, a oedd yn cynnwys cyfres o bedwar ymweliad monitro i adolygu pa mor dda yr oedd yr awdurdod lleol yn gwella. Cynhaliwyd tri ymweliad monitro rhwng Chwefror 2014 a Mawrth 2015. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro terfynol yn Nhachwedd 2015, ac mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau'r ymweliad hwnnw.

Yn Nhachwedd 2015, arweiniodd Gerard Kerslake AEM dîm o bum arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn pob un o'r chwe argymhelliad yn deillio o'r arolygiad yn Nhachwedd 2012, a barnu p'un a oedd yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei thynnu o'r categori mesurau arbennig.

Yn ystod yr ymweliad monitro, cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet ar gyfer addysg, yr aelod cabinet ar gyfer diogelu, aelodau pwyllgorau craffu, chi fel y prif weithredwr, uwch swyddogion, a staff perthnasol eraill yn yr awdurdod. Fe wnaethant hefyd gyfarfod â chadeirydd bwrdd adfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid, llywodraethwyr ysgolion, a staff perthnasol sy'n gweithio i'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS). Craffodd arolygwyr ar ystod eang o ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn unol â phob un o argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau wrthych chi fel y prif weithredwr, arweinydd y cyngor, a phersonél allweddol arall a fu'n rhan o'n trafodaethau.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Yn dilyn yr ymweliad hwn, mae Estyn wedi barnu bod Cyngor Sir Fynwy wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â dau o'r chwe argymhelliad yn deillio o'r

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/Fax 02920 446448
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

arolygiad yn Nhachwedd 2012, a chynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r pedwar argymhelliad arall. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yn credu nad oes angen mesurau arbennig ar yr awdurdod mwyach ac mae'n ei dynnu o weithgarwch dilynol pellach.

**Cefndir**

O ran ymateb i arolygiad Estyn yn Nhachwedd 2012, ar y cychwyn, roedd yr awdurdod yn araf i dderbyn y canfyddiadau a rhoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) priodol ar waith yn cwmpasu pob un o'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu. Fodd bynnag, wedi i Estyn godi pryderon gyda'r awdurdod lleol ynglŷn â'r ymateb cychwynnol hwn, ymatebodd uwch arweinwyr yn fwy trylwyr a bu gwelliant sylweddol yng nghyflymdra'r cynnydd. Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi dangos ymrwymiad clir i wella darpariaeth addysg a deilliannau ar gyfer dysgwyr, yn ogystal â sicrhau bod pob dysgwr yn ddiogel.

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn gadarn ac yn cael eu hategu gan bolisi clir**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn dilyn yr arolygiad o'r awdurdod lleol yn 2012, mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymateb yn dda i'r argymhelliad hwn. Mae'r Cyngor bellach yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu yn gorfforaethol, ac fe gaiff ei gynnwys yn briodol yn asesiad risg strategol yr awdurdod cyfan. O ganlyniad, mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn goruchwylio'n well y modd y mae ei ddarpariaeth addysg yn rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith.

Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi diwygio'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu corfforaethol. Mae hyn wedi cryfhau'r ffordd y mae'r gyfarwyddiaeth plant a phobl ifanc, a'i gwasanaethau addysg, yn rheoli eu cyfrifoldebau diogelu ar gyfer dysgwyr.

Mae'r awdurdod wedi cyflwyno fframwaith adrodd 'tair haen' ar gyfer diogelu, y mae'n ei ddefnyddio i roi gwybod i aelodau etholedig a swyddogion am y materion diogelu ar draws y cyngor. Y tair haen yw'r adroddiad trosolwg strategol ar ddiogelu, y cerdyn adroddiad chwarterol, a'r cynllun gwella gwasanaethau diogelu. Mae'r fframwaith adrodd hwn yn cofnodi a rhannu'r wybodaeth bwysig am faterion diogelu mewn addysg yn effeithiol. Mae'r cerdyn adroddiad chwarterol ar ddiogelu yn darparu sail dystiolaeth a dadansoddiad manylach o wybodaeth am berfformiad i gefnogi'r penderfyniadau a wna'r awdurdod. Caiff pob un o'r tair haen o adroddiadau eu cyhoeddi, ac maent ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd (yr uned) yn adnodd corfforaethol defnyddiol iawn. Mae'r uned yn cefnogi darpariaeth addysg yn dda, trwy drefnu bod cyngor, arweiniad a chymorth ar gael i ysgolion a gwasanaethau addysg. Mae hyn wedi helpu i wella pa mor drylwyr y mae'r gyfarwyddiaeth yn rheoli, monitro ac adrodd am faterion diogelu. Mae'r uned yn cynnal archwiliadau rheolaidd, sy'n darparu ystod o ddata a dadansoddiadau defnyddiol. Mae'r rhain yn cynnwys archwilio polisïau a gweithdrefnau diogelu, yn ogystal â chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel ym mhob ysgol a darpariaeth addysg arall.

Mae'r uned yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon i roi gwybod i uwch swyddogion ac aelodau etholedig am gydymffurfiad darparwyr addysg â'i pholisïau, patrymau diogelu a chyfeiriadau amddiffyn plant, honiadau ynghylch cam-drin proffesiynol a gwybodaeth am les pobl ifanc. Pan fydd angen, eir i'r afael yn briodol â meysydd y mae angen eu gwella.

Caiff arweinwyr diogelu dynodedig mewn ysgolion a gwasanaethau addysg eu cynorthwyo'n dda trwy gyfarfodydd rheolaidd, goruchwylio grŵp a hyfforddiant. O ganlyniad i'r cymorth hwn, mae gan arweinwyr dynodedig ddealltwriaeth well o faterion diogelu fel plant sydd ar goll o addysg a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae staff mewn ysgolion ac mewn darpariaeth addysg arall, yn ogystal â llywodraethwyr ysgol, yn cael mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant addas. Mae'r uned yn monitro'n fanwl y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau, ac yn adrodd ar hyn bob mis. Hyd yn hyn, mae'r holl bersonél addysg sydd angen hyfforddiant haen un wedi cael yr hyfforddiant hwnnw, ac mae llawer ohonynt wedi cael hyfforddiant haen dau.

Y Cynnig Ieuenctid Integredig yw enw'r grŵp partneriaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid lleol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod ddigon addas o randdeiliaid ac mae'n cynnwys gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth troseddau ieuenctid, a darpariaeth ieuenctid y sector gwirfoddol. Mae'r grŵp wedi sefydlu safonau cytûn ar gyfer ansawdd polisïau a gweithdrefnau diogelu, a phrosesau adrodd buddiol. Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi amlinellu ac archwilio darpariaeth pob aelod i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Mae'r archwiliad yn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd yn hyderus, gan wybod bod y safonau uchel cytûn mewn recriwtio diogel, a hyfforddiant diogelu, ar waith.

Mae'r awdurdod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen ei wneud o hyd i wella ei weithgareddau diogelu ymhellach.

**Argymhelliad 2: Gwella safonau cyrhaeddiad ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae perfformiad yn y prif ddangosyddion ar draws pob cyfnod allweddol wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf yn Nhachwedd 2012.

Pan gaiff perfformiad ysgolion yn Sir Fynwy ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, ar ôl bod islaw deilliannau wedi'u modelu ar gyfer y tair blynedd flaenorol. Pan gaiff perfformiad ysgolion yn Sir Fynwy ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae pob ysgol yn yr hanner uchaf yn y naill a'r llall o'r

ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg.

Mae perfformiad wedi gwella mewn prif ddangosyddion eraill yng nghyfnod allweddol 4 hefyd, gan gynnwys lefel 1, lefel 2, sgôr pwyntiau wedi'i chapio a'r dangosydd pwnc craidd.  Pan gaiff perfformiad ysgolion yn Sir Fynwy ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae hanner yr ysgolion uwchlaw'r canolrif ar gyfer y dangosyddion hyn yn 2015.  Mae hyn yn cymharu'n dda â 2013 pan oedd pob ysgol islaw'r canolrif ar gyfer bron pob un o'r dangosyddion.  Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn yr awdurdod wedi aros islaw deilliannau wedi'u modelu ers yr arolygiad diwethaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod meincnodau ar gyfer perfformiad awdurdod yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.  Llwyddodd yr awdurdod i fodloni dau o'i dri tharged wedi'u meincnodi yn 2015 ac un o'i dargedau yn 2014, ar ôl methu i fodloni unrhyw un o'i dargedau yn 2013.

Mae'r cynnydd a wna disgyblion o'r ysgol gynradd hyd ddiwedd yr ysgol uwchradd wedi gwella'n dda ar y cyfan ers yr arolygiad craidd.  Yn 2015, mae cynnydd disgyblion yn cyd-fynd â'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion tebyg yng Nghymru mewn pedwar o'r pum prif ddangosydd.  Fodd bynnag, mae cynnydd a wnaed gan ddisgyblion yn y dangosydd pwnc craidd yn parhau i fod islaw'r cyfartaledd.  Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, ac mae ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer pob dangosydd yng nghyfnod allweddol 4 yn 2015.

Mae disgyblion sy'n fwy abl yn perfformio'n dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ar y cyfan.  Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn perfformio'n ddigon da yng nghyfnod allweddol 4, ac nid oes digon o ddisgyblion yn ennill pum gradd A*-A neu fwy mewn TGAU.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn yr awdurdod, o gymharu â'r bwlch cyfartalog yng Nghymru, wedi lleihau ym mwyafrif y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 ers yr arolygiad diwethaf.

**Argymhelliad 3:  Cryfhau lefel yr her i ysgolion a defnyddio ystod lawn y pwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae'r awdurdod lleol yn datblygu ei waith â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) rhanbarthol yn dda i gefnogi a herio ysgolion yn fwy effeithiol a gwella arweinyddiaeth a rheolaeth.  Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn deilliannau ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, yn enwedig mewn Saesneg ac mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r awdurdod yn adnabod ei ysgolion yn dda.  Ceir systemau gwell ar gyfer casglu data, yn seiliedig ar ddeilliannau disgyblion unigol, sy'n galluogi swyddogion ac

ymgynghorwyr i fonitro cynnydd ysgolion yn ofalus ac yn fwy cywir. Gosodir targedau perfformiad mewn cydweithrediad ag ysgolion, ac mae'r broses hon yn arwain at dargedau blynyddol ar gyfer gwella, sy'n realistig ac yn cynnig her addas ar y cyfan. Mae ymgynghorwyr her yn gweithio'n agos â'u hysgolion i adolygu'r targedau'n rheolaidd. Mae'r defnydd craffach hwn o ddata wedi darparu llwyfan cadarn sy'n sail ar gyfer gwelliant pellach.

At ei gilydd, caiff y broses gategoreiddio ei rhoi ar waith mewn ffordd deg a thrylwyr. Mae ymweliadau categoreiddio yn rhoi ystyriaeth dda i ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu ac ansawdd yr arweinyddiaeth. Caiff penaethiaid eu cynnwys yn briodol yn y broses hon, ac fe gaiff yr holl farnau eu safoni'n ofalus. Mae ysgolion, llywodraethwyr ac ymgynghorwyr her yn deall y broses gategoreiddio yn dda, ac maent yn glir ynglŷn â'r lefelau cymorth sy'n gysylltiedig â phob categori.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau categoreiddio ar gyfer ysgolion yn darparu crynodeb manwl o berfformiad, darpariaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol. Mae llawer o adroddiadau'n nodi meysydd clir a phriodol i'w gwella. Mewn rhai achosion, nid yw'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella yn adlewyrchu'r categori yn ddigon da.

Mae nodiadau ymweliadau ag ysgolion gan ymgynghorwyr her yn canolbwyntio'n addas ar safonau disgyblion a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw arfarnu cynnydd a'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd gan yr ysgol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn dilyn yr ymweliad yn ddigon clir ar y cyfan. Mae hyn yn golygu nad oes gan ymgynghorwyr her ac ysgolion gofnod parhaus clir o gynnydd yr ysgol yn erbyn eu nodau presennol ar gyfer gwella.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n briodol gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau ansawdd ei waith. Mae swyddogion yn monitro'r gweithgareddau a wna ymgynghorwyr her i sicrhau bod ystod addas o brosesau arfarnol yn cael eu cynnal mewn ysgolion. Mae'r prif ymgynghorydd her a phennaeth cyrhaeddiad a chyflawniad yr awdurdod yn cyfarfod yn rheolaidd, ac maent wedi nodi anghysondebau yn arfer ymgynghorwyr her. Maent wedi gweithredu'n briodol i fynd i'r afael â diffygion. O ganlyniad, mae mwy o gysondeb erbyn hyn yn y ffordd y mae ymgynghorwyr her yn gweithio gyda'u hysgolion. Mae cyfarfodydd sicrhau ansawdd ffurfiol yn rhoi cyfle defnyddiol i nodi materion penodol ac ansawdd yr her a'r cymorth y mae ymgynghorwyr yn eu cynnig i ysgolion. Mae'r crynodeb blynyddol o faterion yn darparu rhestr ddefnyddiol o feysydd cyffredinol i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw nodiadau cyfarfodydd misol yn rhoi digon o fanylion am ansawdd y cymorth a'r her mewn ysgolion unigol nac yn nodi camau gweithredu penodol i fynd ar eu trywydd.

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod wedi cyflwyno rhaglen flynyddol o 'gyfrif stoc' pan fydd cynrychiolwyr o ysgolion unigol yn cyflwyno dadansoddiad o'u cynnydd i swyddogion ac aelodau cabinet a chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae'r awdurdod wedi targedu ysgolion ar gyfer y cyfrif stoc yn briodol, ac wedi herio'r ysgolion hyn yn drylwyr. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y cyfarfodydd hyn yn nodi'r meysydd cryfder allweddol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ym mhob ysgol yn ddigon da.

Mae'r awdurdod wedi cyhoeddi pum rhybudd statudol sy'n nodi'n briodol y meysydd pryder penodol ym mhob ysgol. Mae'r hysbysiadau rhybudd hyn wedi cynorthwyo'r awdurdod i gael gwared ar y rhwystrau rhag gwella ym mhob ysgol. O ganlyniad i ddau o'r hysbysiadau rhybudd hyn, mae'r awdurdod wedi defnyddio'i bwerau ymyrraeth i ysgogi newidiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwella. Mae'r tair ysgol arall wedi ymateb yn dda i'r camau gweithredu sy'n cael eu gosod iddynt gan yr awdurdod, ac yn yr achosion hyn, tynnwyd yr hysbysiadau yn ôl.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n briodol gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i drefnu cymorth ar gyfer addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth yn ei ysgolion sydd wedi'i deilwra yn unol ag anghenion penodol yr ysgol. Mae cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd wedi helpu ysgolion yn dda i wella deilliannau mewn Saesneg a mathemateg. Ceir rhaglenni addas i ddatblygu athrawon ac arweinwyr ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y rhaglenni hyn.

Mae'r awdurdod wedi datblygu cynghrair gydweithredol o ysgolion cynradd i rannu arfer dda mewn arweinyddiaeth a gwella deilliannau yn yr ysgolion partneriaeth. Ceir arwyddion cynnar fod y trefniant strategol hwn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

**Argymhelliad 4: Gwella cynllunio corfforaethol i gryfhau cysylltiadau rhwng blaenoriaethau'r awdurdod lleol a thargedau lefel gwasanaeth**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

At ei gilydd, mae dull cynllunio'r gyfarwyddiaeth plant a phobl ifanc wedi gwella llawer ers yr arolygiad. Mae'r dull hwn wedi helpu i roi ffocws gwell ar gamau gweithredu a gweithgareddau'r meysydd gwasanaeth o fewn y gyfarwyddiaeth ac mae wedi helpu i wella darpariaeth a deilliannau mewn meysydd pwysig.

Mae gwella deilliannau addysgol yn un o flaenoriaethau craidd yr awdurdod. Cadarnhawyd y flaenoriaeth hon o'r newydd gan y cyngor yn ei 'Gytundeb Parhaus Gweinyddiaeth Bartneriaeth', sy'n amlinellu ei agenda ar gyfer y cyfnod hyd at Fai 2017. Mae'r pwyslais hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer addysg a nodir yn y Cynllun Integredig Sengl yn briodol.

Mae'r gyfarwyddiaeth wedi cynyddu ei chapasiti ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth strategol a gweithredol, sy'n cynnwys penodi prif swyddog parhaol ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mai 2013. O ganlyniad, mae cyfeiriad cliriach i waith y gyfarwyddiaeth erbyn hyn.

Mae gan y gyfarwyddiaeth plant a phobl ifanc gynlluniau gwella gwasanaeth defnyddiol ar gyfer pob maes gwasanaeth. Caiff ansawdd y cynlluniau maes gwasanaeth ei sicrhau'n briodol gan uwch swyddogion. Mae'r cynlluniau yn dilyn templed defnyddiol, cyffredin ac yn cyflwyno cysondeb priodol i gynlluniau'r gyfarwyddiaeth. Mae cynlluniau'r gyfarwyddiaeth yn fwy cydlynus ac yn cynnwys ffocws gwell nag yr oeddent adeg yr arolygiad, ac mae hyn wedi helpu i gefnogi gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, deilliannau mewn ysgolion ac yng ngwasanaeth ieuenctid yr awdurdod, er enghraifft.

Mae'r awdurdod yn nodi'n dda a chofnodi risgiau perthnasol mewn perthynas â gwahanol lefelau yn ei gynlluniau. Mae cysylltiad priodol o'r risgiau penodol yn y cynlluniau lefel gwasanaeth i'r risgiau strategol, ehangach yn y cynlluniau lefel uchel. Mae'r cofrestri risg yn cynnwys camau gweithredu addas i liniaru'r risgiau hefyd.

**Argymhelliad 5: Gwella hunanarfarnu ar draws yr holl wasanaethau a gwneud defnydd gwell o ddata i gynllunio gwasanaethau yn strategol a thargedu adnoddau'n briodol**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Ers yr arolygiad yn Nhachwedd 2012, mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig wedi gwella'u dealltwriaeth o berfformiad y gyfarwyddiaeth plant a phobl ifanc.

Mae prosesau hunanarfarnu wedi dod yn fwy gonest a chywir. Yn gyffredinol, mae gan swyddogion ddealltwriaeth gliriach o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu meysydd gwasanaeth. At ei gilydd, maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fwy effeithiol i lywio eu cynllunio.

Fodd bynnag, nid yw'r gyfarwyddiaeth bob amser yn cofnodi'r meysydd i'w gwella yn ddigon da yn ei dogfennau allweddol. Er enghraifft, nid yw adroddiad hunanarfarnu'r awdurdod (AHA), sy'n seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, yn amlygu meysydd i'w gwella yn glir, ac o ganlyniad, nid yw'n offeryn defnyddiol i lywio cynllunio. At ei gilydd, mae'r AHA yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n dadansoddi data yn ddigon da yn gyson.

Mae monitro cynlluniau gwasanaeth yn chwarterol gan y gyfarwyddiaeth yn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu. Fodd bynnag, mae arfarniadau diwedd blwyddyn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn a gyflawnwyd, ac nid ydynt yn nodi'n ddigon da unrhyw feysydd nad aethpwyd i'r afael â nhw, neu ble nad yw cynnydd wedi bod yn ddigon da.

Mae'r gyfarwyddiaeth yn parhau i wella ansawdd ei hadroddiadau i'r pwyllgor craffu perthnasol. Mae aelodau etholedig yn darparu lefel well o her erbyn hyn.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth well o lawer o'i ysgolion. Mae gosod targedau yn well mewn ysgolion yn golygu bod yr awdurdod yn gallu arfarnu'n fwy effeithiol p'un a yw'r cynnydd o ran codi safonau yn ddigon cyflym. Fodd bynnag, mae'r cyfle a gaiff ysgolion i ddefnyddio systemau gwybodaeth reoli yn rhy anghyson o hyd.

Mae defnydd y gyfarwyddiaeth o ddata perfformiad wedi gwella, er enghraifft o ran nodi cynnydd grwpiau sy'n agored i niwed a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae swyddogion yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ymyrraeth, er mwyn arfarnu effeithiolrwydd y rhaglenni a phennu a oes angen rhagor o ymyrraeth. Mae'r awdurdod wedi gwella ystod y data yn y gwasanaeth ieuenctid, sy'n golygu bod gan swyddogion a phartneriaid ddealltwriaeth well o'r modd y mae'r ddarpariaeth yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd a chyflawni.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod rheoli perfformiad yn effeithiol a thrylwyr ac yn galluogi aelodau etholedig ac uwch swyddogion i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae prosesau rheoli perfformiad y gyfarwyddiaeth wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r gyfarwyddiaeth yn dilyn proses asesu perfformiad corfforaethol ddiwygiedig yr awdurdod lleol, sy'n darparu system fwy trylwyr ar gyfer rheoli perfformiad.

Mae staff y gyfarwyddiaeth yn cael adolygiadau perfformiad ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gyda'u rheolwyr llinell. Mae'r cyfarfodydd hyn yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn perthynas â chyfrifoldebau unigolion. Yn ychwanegol, maent yn cael cyfarfodydd rheolaidd amserlenedig i drafod agweddau cyffredinol ar eu gwaith. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cwmpasu meysydd fel ymddygiadau, diwylliant staff, a chynllunio i'r dyfodol. Mae gan unigolion a thimau yn y gyfarwyddiaeth ddealltwriaeth gliriach o'u rolau erbyn hyn, a'r modd y mae eu gwaith yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y gyfarwyddiaeth ac yn ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi arfarnu effeithiolrwydd cyffredinol y prosesau rheoli perfformiad a gwerthuso staff yn ffurfiol.

Caiff swyddogion arweiniol y gyfarwyddiaeth eu dwyn i gyfrif yn ffurfiol mewn cyfarfodydd her penaethiaid gwasanaeth gan arweinydd y cyngor, yr uwch dîm arweinyddiaeth, a swyddogion perthnasol. Mae'r broses hon yn helpu'r uwch arweinwyr i ddeall yr heriau sy'n wynebu meysydd gwasanaeth addysg yn well ac ystyried ffyrdd o gael gwared ar rwystrau rhag gwella. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi arfarnu effeithiolrwydd y dull hwn, a chan fod rhan o'r broses yn canolbwyntio ar adnoddau, nid yw'n glir a yw'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae gan yr awdurdod drefniadau addas ar gyfer dwyn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyfrif. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu gwybodaeth o ansawdd gwell i'r awdurdod am safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion, sydd yn ei dro yn galluogi'r awdurdod i nodi tanberfformio, dwyn arweinwyr ysgol i gyfrif yn fwy trylwyr a defnyddio'i bwerau statudol pan fydd angen. Mae'r trefniadau hyn wedi helpu i wella'r deilliannau a gyflawnir gan ei ddisgyblion. Ceir trylwyredd cynyddol ac eglurder gwell hefyd yn y broses o osod targedau cyrhaeddiad ysgolion. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo disgwyliadau uwch ar gyfer gwella ar draws ysgolion yr awdurdod lleol.

Mae gan yr awdurdod drefniadau priodol i graffu ar waith y gyfarwyddiaeth addysg. Mae'r trefniadau'n cyd-fynd yn dda â monitro'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad a blaenoriaethau'r adran addysg. Mae swyddogion craffu wedi gweithio'n dda gydag aelodau etholedig i'w helpu i wella'u dealltwriaeth o faterion addysgol allweddol a rhoi iddynt y wybodaeth a'r medrau i herio swyddogion a'r aelod arweiniol yn briodol.

Estyn

**Cynnydd ar y gwelliant mewn gwasanaethau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Yn yr arolygiad yn Nhachwedd 2012, barnwyd bod cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn anfoddhaol. Ers hynny, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd. Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y gyfarwyddiaeth adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau ADY, a oedd yn cynnwys ymgynghori helaeth â phlant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ac ysgolion. Ceir strategaeth glir erbyn hyn, sy'n canolbwyntio ar feithrin gallu ysgolion i fodloni anghenion disgyblion ag ADY a sicrhau bod darpariaeth arbenigol yn addas at ei diben.

Trwy weithio'n agos iawn ag ysgolion a rhieni, mae'r gyfarwyddiaeth wedi gwneud yn siŵr bod mwy o ddisgyblion yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn gyflym, heb fod angen iddynt gael datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae rhaglen gynhwysfawr o gymorth a hyfforddiant yn golygu bod ysgolion yn dod yn fwy hyderus i ddarparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn cyfeiriadau ar gyfer cymorth ychwanegol.

Mae'r awdurdod bellach yn defnyddio data i olrhain cynnydd disgyblion ag ADY mewn perthynas â'u targedau unigol yn fwy effeithiol. Mae prosesau effeithiol ar waith i fonitro gwaith ysgolion, ar lefel strategol a lefel disgybl unigol fel ei gilydd. Mae hyn yn galluogi swyddogion i ddarparu cymorth a her briodol.

**Y camau nesaf**

Caiff nifer o feysydd pwysig eu cwmpasu yn ein hadroddiad, y mae angen gwelliant pellach a pharhaus arnynt. Dylai'r awdurdod wella ansawdd hunanarfarnu ymhellach yn y gyfarwyddiaeth plant a phobl ifanc, yn ogystal â mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella wrth gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion a amlygwyd yn y llythyr hwn. Mae gwaith diweddar y bwrdd adfer wedi bod yn werthfawr o ran rhoi arweiniad i'r awdurdod yn ei waith gwella, a dylai'r awdurdod ystyried parhau i ymgysylltu ag arbenigwyr allanol i sicrhau nad yw'r gwelliant yn arafu a chynghori ar faterion penodol pan fydd angen. Dylai'r awdurdod weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill hefyd er mwyn datblygu ffyrdd effeithlon o weithio i fynd i'r afael â materion a heriau cyffredin o ran darparu gwasanaethau addysg.

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru ac at Archwilydd Cyffredinol Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Archwilydd Cyffredinol Cymru